
Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth

# Angenfilod yn bwyta




## Deunyddiau cymorth i athrawon

Blwyddyn 4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Blwyddyn 4 Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth – Angenfilod yn bwyta

Mae'r cyd-destun difyr hwn yn annog dysgwyr Blwyddyn 4 i ddefnyddio'u gwybodaeth am rifau a'r berthynas rhwng rhifau.



**Gweithgaredd 1**

**Angenfilod yn bwyta**
Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i fyd o angenfilod sy'n bwyta rhifau.

Mae'n cynnwys:
- Sgript i athrawon
- Cyflwyniad PowerPoint
- Cwestiynau – Angenfilod yn bwyta
- Cynllun marcio

**Gweithgaredd 2**

**Dewiswch chi!**
Byddan nhw'n dewis eu hanghenfil a'u rheol eu hunain.

Mae'n cynnwys:
- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon
- Taflen adnoddau – Dewiswch chi!
- Bwrdd gwyn – Dewiswch chi! Beth i'w wneud (cyfarwyddiadau i ddysgwyr)

**Gweithgaredd 3**

**Llyncwch nhw!**
Bydd y dysgwyr yn datblygu eu rheolau eu hunain er mwyn 'bwyta' rhifau penodol.

Mae'n cynnwys:
- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon
- Bwrdd gwyn – Grid rhifau

## Y sgiliau rhesymu sydd eu hangen

| Adnabod | Cyfathrebu | Adolygu |
|---|---|---|
| Bydd y dysgwyr yn dewis ac yn datblygu eu rheolau eu hunain. | Byddan nhw'n defnyddio iaith fathemategol glir. | Byddan nhw'n gwirio eu bod wedi dod o hyd i bob ateb. |

## Sgiliau gweithdrefnol

- Adio a thynnu
- Lluosi a rhannu

## Iaith rifiadol

- Yn gwneud
- Gwahaniaeth
- Lluosi
- Unfath

Gweithgaredd 1

# Angenfilod yn bwyta

## Gweithgaredd 1 – Angenfilod yn bwyta

neu



### Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn ymateb i'r cyflwyniad ysgogi sy'n esbonio cyd-destun byd o angenfilod sy'n bwyta dim ond rhifau.

Wedyn, byddan nhw'n ateb cwestiynau sy'n berthnasol i'r cyd-destun hwnnw.

### Bydd angen

**Sgript i athrawon**


**Cyflwyniad PowerPoint**



**Cwestiynau – Angenfilod yn bwyta**
Dwy dudalen i bob dysgwr, gellir eu hargraffu ar bob ochr i'r papur

**Cynllun marcio**

## Cyflwyniad i’w ddangos i’r dysgwyr cyn iddyn nhw ddechrau gweithio ar Angenfilod yn bwyta

Dylech ddarllen y testun yn y blychau ar y dde (ond nid y testun mewn print italig) i’r dysgwyr. Gallwch ddefnyddio eich geiriau eich hun, neu esbonio rhagor am y cyd-destunau, os oes angen. Fodd bynnag, os byddwch yn defnyddio’r eitem hon at ddibenion asesu, ni ddylech eu helpu o gwbl gyda’r rhifedd sydd i’w asesu.

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 1 |   | *(Cadwch y sleid hon ar y sgrin nes eich bod yn barod i ddechrau’r cyflwyniad.)* |
| Sleid 2 |  | Dyma anghenfil. Er ei bod hi’n edrych yn eithaf ffyrnig, mae’n eithaf addfwyn mewn gwirionedd. Ac mae ganddi lawer o ffrindiau sy’n angenfilod. |
| Sleid 3 |  | Dyma hi gyda rhai o’i ffrindiau hyfryd.<br>Mae’r angenfilod yn byw gyda’i gilydd yng ngwlad yr angenfilod. Ond byddwch yn ofalus! Pan fydd yr angenfilod eisiau bwyd, maen nhw’n bwyta . . . |

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 4 |  | . . . rhifau. Blasus!<br>Wrth gwrs, nid dim ond unrhyw hen rifau y byddan nhw'n eu bwyta. Byddai hynny'n dwp.<br>Mae ganddyn nhw reolau am y rhifau maen nhw'n gallu eu bwyta. Ond mae'r rheolau'n newid bob dydd. Mae bywyd yn gymhleth i angenfilod. |
| Sleid 5 |  | Y rheol i'r anghenfil hwn yw ei fod yn gallu bwyta tri rhif, ond rhaid i'r rhifau hynny wneud 10<br>*(Os oes angen, atgoffwch y dysgwyr mai ystyr 'gwneud' yw 'adio i'.)*<br>Pa rifau fyddai'r anghenfil yn gallu eu bwyta? Siaradwch â'r person sydd nesaf atoch chi: ceisiwch weld a allwch ddod o hyd i wahanol atebion. *(Gadewch iddyn nhw drafod a rhestru nifer o atebion posibl, e.e. 1, 2 a 7; 2, 3 a 5; 3, 3 a 4*<br>*Os bydd y dysgwyr yn awgrymu ffracsiynau a degolion, rhowch ganmoliaeth iddyn nhw am yr ymateb ond dywedwch mai dim ond rhifau cyfan y bydd yr angenfilod yn eu bwyta. Yn yr un modd, peidiwch â chaniatáu rhifau negatif.)*<br>Dyna anghenfil lwcus. Mae ganddo ddewis. |
| Sleid 6 |  | Mae'r rheol yn wahanol i'r anghenfil hwn. Beth yw'r rheol? Ie, mae e'n bwyta dau rif sy'n gwneud 16<br>Allwch chi ddweud wrtha'i beth allai'r rhifau fod? *(Gadewch iddyn nhw drafod, wedyn dywedwch yn sydyn . . .)*<br>O na! Mae'r rheol wedi newid nawr ar gyfer yr anghenfil hwn . . . |

| | | |
|---|---|---|
| Sleid 7 |  | . . . rhaid i'r rhifau fod yn unfath. Beth yw ystyr hynny?<br>*(Cytunwch mai ystyr 'unfath' yw 'yr un fath yn union' ac ysgrifennwch hyn ar y bwrdd gwyn os bydd angen.)*<br>Felly pa rifau mae e'n gallu eu bwyta? Dyna ni, dim ond 8 ac 8 mae'n gallu eu bwyta nawr oherwydd bod y ddau rif hynny'n unfath a'u bod yn gwneud 16<br>Gadewch i ni edrych ar un rheol arall. |
| Sleid 8 |  | Mae hwn yn fwy anodd. Mae'r anghenfil pinc yn bwyta pedwar rhif sy'n gwneud 10<br>Mae dau yn unfath. Mae'r ddau arall yn unfath.<br>Siaradwch â'r person sydd nesaf atoch chi. Allwch chi gyfrifo beth allai'r pedwar rhif fod?<br>*(Gadewch iddyn nhw drafod, gan ei gwneud yn glir bod y ddau gyntaf yn unfath â'i gilydd, a bod yr ail ddau yn unfath â'i gilydd.*<br>*Gan ddefnyddio rhifau cyfan positif, yr unig atebion posibl yw 1, 1, 4, 4 neu 2, 2, 3, 3)*<br><br>Nawr, rydych chi'n mynd i ateb ychydig o gwestiynau am yr angenfilod hyn a'r rhifau maen nhw'n eu bwyta.<br>Cofiwch ddangos eich gwaith bras er mwyn i rywun arall allu deall beth rydych chi'n ei wneud a pham.<br>*(Os ydych yn defnyddio'r eitem hon at ddibenion asesu, efallai yr hoffech gyfyngu'r amser sydd ar gael, e.e. 10 munud.)* |

Mae  yn bwyta **tri** rhif sy’n gwneud **50**

**15** yw un.

Gallai’r lleill fod yn ______ a ______

1m

Mae  yn bwyta **pedwar** rhif sy’n gwneud **60**

**13** yw un ac **18** yw un arall.

Gallai’r lleill fod yn ______ a ______

1m

Mae  yn bwyta **pum** rhif sy’n gwneud **70**


Mae’r **ddau** gyntaf yn unfath ac

mae’r **tri nesaf** yn unfath.


Beth allai’r rhifau fod?

______ , ______ , ______ , ______ a ______

1m


Mae  yn bwyta rhifau sydd:

- **yn llai nag 20** ac
- yn **nhabl 2** a
- hefyd yn **nhabl 3**

Felly, yr unig rifau y gall  eu bwyta yw

[ ] , [ ] a [ ]

2m

Yr unig rifau y gall  eu bwyta yw **15** a **30**

Gall fwyta dim ond rhifau sydd:

- **yn llai na 40** ac
- yn **nhabl** [ ] a
- hefyd yn **nhabl** [ ].

2m

# Gweithgaredd 1 – Angenfilod yn bwyta – Cynllun marcio

| C | Marciau | Ateb |
|---|---|---|
| i | 1m | Unrhyw ddau rif sy'n gwneud **35** |
| ii | 1m | Unrhyw ddau rif sy'n gwneud **29** |
| iii | 1m | Unrhyw bum rhif sy'n gwneud **70** ar yr amod bod dau yn unfath a bod y tri arall yn unfath, e.e.<br>• 20, 20, 10, 10, 10 |
| iv | 2m | **6**, **12** ac **18** mewn unrhyw drefn |
| | Neu 1m | Unrhyw ddau o **6**, **12** ac **18** hyd yn oed os yw'r llall yn anghywir neu'n absennol<br>Neu<br>Yn rhestru lluosrifau 6, e.e.<br>• 6, 12, 18, 24, 30 |
| v | 2m | Tabl **3** a thabl **5**, yn y naill drefn neu'r llall<br>Neu<br>Tabl **15** ac un o'r rhain: tabl **3**, tabl **5** neu dabl **1**, yn y naill drefn neu'r llall |
| | Neu 1m | Yn nodi unrhyw **un** o'r rhain: tabl **3**, tabl **5** neu dabl **15**, hyd yn oed os yw'r llall yn anghywir neu wedi'i hepgor |

**Derbyniwch y rhain mewn unrhyw drefn, e.e.**

- **22, 2, 22, 22, 2**

# Gweithgaredd 1 – Angenfilod yn bwyta – Enghreifftiau

**Rhan iv**




Cywir; **2 farc**

- Mae'r dysgwr hwn yn gweithio'n systematig, gan restru lluosrifau 2 ac wedyn 3 er mwyn canfod rhifau sy'n gyffredin i'r ddau.




Cywir; **2 farc**

- Mae'r atebion wedi'u dangos yn glir yn y gwaith bras.




Cywir; **2 farc**

- Mae'r dysgwr hwn wedi defnyddio parau o ffactorau i wirio bod 6 a 12 yn lluosrifau 2 a 3, ond mae wedi cael trafferth wrth ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon ar gyfer 18.




Yn rhestru lluosrifau 6; **1 marc**

- Dangosir dealltwriaeth o'r ddau gyfyngiad, ond mae'r dysgwr hwn wedi anwybyddu'r ffaith bod yn rhaid i'r rhifau fod yn llai nag 20.




Dau yn gywir ac un yn anghywir; **1 marc**

- Mae'r dysgwr hwn wedi gwneud camgymeriad wrth gyfrifo $5 \times 3$ (neu adio 3 a 12).




Anghywir; **0 marc**

- Dim ond un gwerth cywir a ddangosir.

Gweithgaredd 2

# Dewiswch chi!

# Gweithgaredd 2 – Dewiswch chi!

neu



## Amlinelliad

Bwriedir i'r gweithgaredd hwn ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 1 – Angenfilod yn bwyta**.

O'u taflen adnoddau, bydd y dysgwyr yn dewis anghenfil a rheol, gan gyfrifo'r holl barau o rifau y gall eu hanghenfil eu bwyta.

Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'u gwaith i'r parau/grwpiau eraill.

Wedyn, gellir arddangos y rheolau, a'r atebion, yn yr ystafell ddosbarth.

## Bydd angen

A

**Taflen adnoddau – Dewiswch chi!**
Un ar gyfer bob grŵp/pâr

BG

**Bwrdd gwyn – Dewiswch chi! Beth i'w wneud**
Cyfarwyddiadau i ddysgwyr

**Siswrn**

**Glud**

# Gweithgaredd 2 – Dewiswch chi!



**Esboniwch**

Rhowch gopi o'r daflen adnoddau **Dewiswch chi!** i'r dysgwyr.

Dywedwch wrthyn nhw eu bod yn mynd i ddewis anghenfil a rheol, eu torri allan a'u gludo ar ran uchaf darn o bapur neu gerdyn.

Wedyn, byddan nhw'n cynnwys rhif yn eu rheol, e.e.



Rheol:
2 rif sy'n lluosi
i wneud 20

Bydd angen iddyn nhw gyfrifo a chofnodi'r parau o rifau y gall eu hanghenfil eu bwyta, gan eu hysgrifennu ar ran isaf y daflen a'i phlygu fel na all neb weld eu hatebion.

Dangoswch **Dewiswch chi! Beth i'w wneud** ar y bwrdd gwyn i atgoffa'r dysgwyr o'r dasg.

Wedyn, bydd y dysgwyr yn herio'r parau/grwpiau eraill i weld a ydyn nhw'n gallu dod o hyd i'r holl rifau y mae'n bosibl eu bwyta.

**Neu**

Paratowch amrywiaeth o gardiau ymlaen llaw. Bydd y dysgwyr yn dewis un neu fwy ar hap ac wedyn yn dod o hyd i'r parau i gyd.



**Holwch**

- Sut rydych chi'n cyfrifo pa rifau y mae eich anghenfil yn gallu eu bwyta?
- Ydy hi'n bosibl defnyddio dau rif unfath ar gyfer eich rheol? Os nad yw hi, pam?
- Sut allwch chi fod yn siŵr eich bod wedi dod o hyd i'r parau i gyd?
- Allwch chi roi enghraifft i mi o reol sy'n cynnwys llawer o barau o rifau?
- Allwch chi roi enghraifft i mi o reol sy'n cynnwys dim ond ychydig o barau o rifau?
- Ydy hi'n wir bod rheolau sy'n gofyn i chi adio rhifau gan amlaf yn cynnwys mwy o barau o rifau na rheolau sy'n gofyn i chi luosi? Pam?


## Gwaith ymestynnol

- Allwch chi ddod o hyd i reol sydd â dim ond un pâr o rifau? *(Un ateb yw defnyddio 1 a rhif cysefin, er enghraifft 17.)*
- Beth os byddwn ni'n gadael i'r angenfilod fwyta degolion (neu ffracsiynau, neu rifau negatif)? *(Mae'r atebion yn ddi-ben-draw.)*



| | |
|---|---|
| Rheol:<br>dau rif<br>sy'n gwneud ☐ | Rheol:<br>dau rif<br>sy'n gwneud ☐ |
| Rheol:<br>dau rif sy'n lluosi<br>i wneud ☐ | Rheol:<br>dau rif sy'n lluosi<br>i wneud ☐ |
| Rheol:<br>dau rif sydd â<br>gwahaniaeth o ☐ | Rheol:<br>dau rif sydd â<br>gwahaniaeth o ☐ |

# Dewiswch chi!
# Beth i'w wneud



1. Dewiswch anghenfil. Torrwch e allan.
2. Dewiswch reol. Torrwch hi allan.
3. Gludwch yr anghenfil a'r rheol ar ben eich papur.
4. Dewiswch rif ar gyfer eich rheol.
5. Cyfrifwch yr **holl** barau ar gyfer eich rheol. Ysgrifennwch nhw i gyd ar waelod eich papur.
6. Cadwch eich atebion o'r golwg!

## Gwiriwch



Ydyn ni wedi dod o hyd i'r **holl** barau ar gyfer ein rheol?




Ydyn ni wedi'u hysgrifennu nhw i gyd?

Gweithgaredd 3

# Llyncwch nhw!

## Gweithgaredd 3 – Llyncwch nhw! neu



### Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn canfod rheolau sy'n caniatáu i'r angenfilod fwyta rhifau penodol.

Bwriedir i **Llyncwch nhw!** ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 2 – Dewiswch chi!**

Fodd bynnag, gallwch ei gyflwyno fel gweithgaredd ar ei ben ei hun, gan ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 1 – Angenfilod yn bwyta**.

Gweithgaredd i'r dosbarth cyfan yw **Llyncwch nhw!**, ond mae'n ddigon rhwydd ei addasu ar gyfer gweithio mewn grwpiau bach neu barau.

### Bydd angen

BG **Bwrdd gwyn – Grid rhifau**

# Gweithgaredd 3 – Llyncwch nhw!

**Esboniwch**

Cyflwynwch y gweithgaredd drwy esbonio mai dim ond y rhifau 1 i 20 mae'r angenfilod yn gallu eu bwyta nawr.

Dangoswch **Grid rhifau** ar y bwrdd gwyn, ac esboniwch mai dim ond dau rif sy'n lluosi i wneud 12 mae'r anghenfil hwn yn gallu eu bwyta.

Gofynnwch pa rifau ar y grid mae'r anghenfil hwn yn gallu eu bwyta. Trafodwch hyn fel grŵp a chroeswch drwy'r rhifau wrth i'r dysgwyr eu henwi.

Ar ôl iddyn nhw enwi pob pâr o rifau mae'r anghenfil yn gallu eu bwyta, gofynnwch iddyn nhw greu rheol ar gyfer yr anghenfil nesaf (e.e. dau rif sy'n gwneud 17) . . . a'r nesaf . . . a'r nesaf, nes bod pob rhif wedi cael ei fwyta.

Penderfynwch ymlaen llaw a yw'n dderbyniol i'r rheol newydd gynnwys rhif sydd wedi'i groesi allan eisoes – mae hyn yn debygol o godi yn ystod y gweithgaredd.

Wedyn, anogwch y dysgwyr i gymharu eu rheolau a'u gwirio.

**Holwch**

- Pa rifau y mae'n hawdd dod o hyd i reolau ar eu cyfer?
- Pa rai sy'n fwy anodd? Pam maen nhw'n fwy anodd?
- Allwch chi ddod o hyd i wahanol reolau sy'n caniatáu i'r angenfilod fwyta'r un rhifau?
- Allwch chi ddod o hyd i rai rheolau anodd iawn?
- Allwch chi ddod o hyd i reol sy'n caniatáu i anghenfil fwyta'r rhifau i gyd? *(Er enghraifft, dau rif sy'n gwneud 21.)*

BG

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |



Rwy'n bwyta
**dau rif sy'n lluosi**
**i wneud 12**